# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH AM Y

# PARCH. DAVID DAVIES,

*Gweinidog yr Efengyl yn mhlith y Bedyddwyr Neillduol neu Galfiniaid,*

YN ABERDUAR, AC EGLWYSI ERAILL,

Yn Mhlwyf Llan-y-byther, Swydd Gaerfyrddin.

---

*Bu Farw Hydref* 10, 1826, *yn* 88 *Oed.*

---

Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw. PAUL.

---

GAN JEDIDIAH RICHARDS,

FFALD-Y-BRENIN,

*Addysgwr yr Ysgrythyrau i Ymarfer Cristionogaidd, mewn amryw leoedd,* 1827.

---

1 ANFEIDROL ddoeth gynhaliwr a lluniwr nef a llawr,
Mae'th wyrthiau di i'w canfod yn hynod yma 'nawr,
Mae rhai yn cael eu geni ac eraill fyn'd o'r byd,
Hyn ydyw dy weithredoedd ar gyhoedd oll i gyd.

2 Mae rhybudd ar ol rhybudd yn dyfod i bob rhyw,
Gan dd'weud mai byr yw'n dyddiau i fod ar dir y byw,
Can's angau 'nawr a dorra y dynion gwycha'u gwedd,
Yn ddirfawr gan eu rhoddi i bydru yn y bedd.

3 Y ddegfed dydd o Hydref diweddaf syn y daeth,
Yr angau i roddi ergyd gan wanu'i surllyd saeth,
A chym'ryd un o weision yr Iesu gydâg ef,
Mae hyn yn peri galar trwy Gymru mewn oer lef.

4 Ei wraig anwylaf dirion sydd yn hiraethlon iawn,
O hyd yn dra gofidus y boreu a'r prydnhawn,
Ac hefyd Aberduar sy'n ddyfnach dan ei chur,
Waith colli DAVID DAVIES, gwr medrus parchus pur.

5 Hwn fu yn mwynaidd geisio goleuo yr holl wlad,
Trwy roi gwybodaeth Iesiol naturiol am y Tad,
A chodi enw Iesu i fynu'n uchel iawn,
A fu ei ymdrech gywir o hyd mewn llafur llawn.

6 Fe deithiodd Dde' a Gogledd yn ddiwyd lawer gwaith,
Er gweled teyrnas anghrist yn myn'd yn ddarnau maith,
A gweled teyrnas Iesu yn llwyddo yn mhob lle,
Yn hyn o waith bu'n ddiwyd tra fu ef is y ne.

7 Fe fyddai mewn Cymmanfa yn cael ei barchu 'mla'n,
I ddywedyd gair am Iesu o hyd mewn geiriau glân,
Ac hefyd Cwrdd Cwarterol a Misol yr un modd,
Y byddai gydâ'r blaenaf yn cael ei ddwyn a'r go'dd.

8 Am lawer o flynyddau fe fu mewn ymdrech llwyr,
Am lwydd ar achos Iesu i ledu foreu a hwyr,
Ac am i gonglau pellaf y byd gael clywed son,
Yn fuan am y gwyrthiau wnaed gan yr aeddfwyn Oen.

9 Fe roddai i'r Ysgolion gynghorion cyson call,
I ymroddi am eu bywyd i ddysgu yn ddiball,
A chadw'r gorchymynion yn dirion oll i gyd,
Can's dyna'r ffordd i'r ardal lle nad oes ynddi lid.

10 Ei eiriau gafodd effaith ar g'lonau llawer un,
Gan beri iddynt geisio am gymmorth Mab y dyn,
Ac hefyd gwnai iddynt wylo a chwyno'n drist eu gwedd,
Gan geisio lloches gynnes yr ochr draw i'r bedd.

11 Ond angau ddaeth i'w gym'ryd o'r hen ofidus fyd,
Yn wyth a phedwar ugain, mae'n alar i ni gyd,
Gan roddi'i gorph i orwedd yn ddistaw yn y bedd,
A'r enaid i'r fro nefol, er cael trag'wyddol hedd.

12 Pan oeddent hwy yn myned a'i gorph ef tua'r llan,
'Roedd yno alar dirfawr yn helaeth o bob man,
'Roedd dagrau ar eu gruddiau a'u c'lonau oll yn brudd,
Waith colli cyfaill hawddgar a'i roddi yn y pridd

13 Mae heddyw uwch gofidiau yn canu'r Anthem bêr,
Mewn mwyniant a gorfoledd yn burlan uwch y ser,
A'i fysedd ar y delyn diderfyn yn rhoi mawl,
I'r Iesu yn oes oesoedd am gaffael y fath hawl.

14 Pan oedd ef yn ei gystudd yn ddyoddefgar bu,
Yn fwynaidd gan ymostwng i 'wyllys Iesu cu,
Gan fod yn ddigon boddlon i drefniadau Duw,
Can's gwyddai mai gwell iddo oedd myn'd i'r nef i fyw.

15 'Roedd marw'n elw iddo, can's yno mae'n ddiboen,
Yn canu yn ddiderfyn a rhoddi mawl i'r Oen,
A diolch fyth i'r Iesu am dynnu'i ei enaid ef
I oesi yn drag'wyddol, a siriol yn y nef.

16 Mae gantho well cwmpeini nâ'r rhai gadd ar y llawr,
Mae gydâ glân angylion yn wiwlon iawn eu gwawr,
Yn rhoddi melus foliant i'r Iesu fyth ar gân,
A gwledda ar ddanteithion yn hyfryd iawn ei rân.

17 Ond gan dy fod yn cym'ryd dy weision gwych i'r ne',
Rho obaith i ni etto gael eraill yn eu lle,
A fyddo yn ymdrechgar fel Davies oll i gyd,
Am weled achos Iesu yn lledu dros y byd.

18 O Arglwydd bydd yn gymmorth i'w weddw dirion,
Gwna'i diogeli'n gysson, rho iddi nerth o'r nef,
Bydd di yn ei chysuro a'i llwyddo yn mhob lle,
A dwg hi yn y diwedd i nofio yn y ne'.

A rhoddwch chwithau'ch gofal yn ddyfal iddo byth,
Fe'ch cynhorthwya'n gysson yn dirion a dilyth,
Fe fydd yn llywio'ch camrau, a'ch tywys wna'n ddilai,
Rho'ch eich holl hyder arno, fe a wna gwblhau.

Ffarwel a roddwn iddo in' mwyach gael ei wawr,
N pregethu yr efengyl yn unman ar y llawr,
Mae heddyw uwch gofidiau y ddaear hon i gyd,
Yn canu am yr uwcha' i Brynwr mawr y byd.

Y mae efyn y nefoedd a'i wisg efsydd yn wyn,
Mae wedi cael ei gannu gan Iesu ar y bryn,
A phalmwydd yn ei ddwylaw byth ar ddeheulaw'r lon,
Yn seinio mawl yn helaeth, heb allael tewi son.

Un fil wyth cant ac ugain, a chwech a ro'wn at hyn,
Oedd oedran Crist ein Meichiau fu farw ar y bryn.
Pan roed ei gorph i orwedd yn llonydd yn y llawr,
Nes delo yr arch-angel i floeddio'r udgorn mawr.

Nid ydyw doniau helaeth a golud yn gyttun,
Ac hefyd enw clodfawr i gadw bywyd dyn,
Pan roddo y Goruchaf ei lân orchymyn ef,
Yr angau wna ein rhoddi yn ddigon oer ein llef.

Y mae Davies gydâ'i frodyr 'nawr yn gwledda yn gyttun
Ac yn seinio Haleluia am iechydwriaeth fawr i ddyn,
Lle mae Powell, Enoch Francis, Timothiaid glân,
Yn pêr byngcio eu caniadau o fawl i'r Oen a'u gwnaeth yn lân.

Mae hynny'n rhybydd ini i feddwl bawb trwy'r byd,
Mai'r bedd a fydd ein lletty yn fuan oll i gyd,
In hynny ymofynwn am heddwch Iesu gwiw,
Cyn byddom yn y beddrod yn fuan o bob rhyw.

---

*Jonathan Harris, Argraffydd, Caerfyrddin.*